

**Ymateb gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn ymateb i ymgynghoriad
Llywodraeth Cymru: Dehongli Cyfreithiau Cymru: deddf dehongli i Gymru**

Rwyf yn falch o gael y cyfle i ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar 'Dehongli Cyfreithiau Cymru: deddf dehongli i Gymru'.

Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), rwyf yn ymchwilio i gwynion a wneir gan y cyhoedd sy'n teimlo eu bod wedi dioddef caledi neu anghyfiawnder trwy gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth ar ran corff yn fy awdurdodaeth, sydd i bob pwrpas yn cynnwys yr holl sefydliadau hynny sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- llywodraeth leol (cynghorau sir a chymuned);
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (gan gynnwys meddygon teulu a deintyddion);
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai); a
- Llywodraeth Cymru, ynghyd â'i chyrrff nodeddig.

Gallaf hefyd ystyried cwynion am ofal cymdeithasol sy'n cael ei drefnu neu ei ariannu'n breifat a gwasanaethau gofal lliniarol. Gallaf hefyd ystyried ac ymchwilio i gwynion bod aelodau cyrff llywodraeth leol wedi torri Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau eu hawdurdod. Rwyf yn annibynnol ar holl gyrff y llywodraeth.

Gallaf ymateb i ymgynghoriad ar sail tystiolaeth o waith achos OGCC yn unig; felly yn hytrach nag ateb cwestiynau penodol yr ymgynghoriad byddaf yn gwneud sylwadau cyffredinol ar brofiad OGCC a all fod yn fuddiol i Lywodraeth Cymru wrth ystyried deddf dehongli i Gymru.

Oherwydd natur ein gwaith, mae dehongli cyfreithiau yng Nghymru o'r pwys mwyaf i OGCC gan fod angen i ni sicrhau bod cyrff o fewn ein hawdurdodaeth yn gweithredu'r gyfraith yn gywir. Mae dehongli'r gyfraith yn gywir yn hanfodol i wneud hyn.

Mae Deddfau Dehongli ar waith eisoes yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, felly er mwyn sicrhau cysondeb rhwng y cenedloedd datganoledig byddai'n rhesymol i ddatblygu un ar gyfer Cymru. Caiff y ddadl hon ei chryfhau gan y ffaith bod deddfwriaeth Gymreig eisoes yn cael ei chyhoeddi'n ddwyieithog a gall achosion llys gael eu cynnal yn Gymraeg neu Saesneg, ond mae Deddf 1978 yn cael ei gweithredu'n Saesneg yn unig felly mae datblygu Deddf Dehongli Gymraeg yn hanfodol i sicrhau nad oes dim amwysedd yn cael ei gyflwyno wrth gyfieithu termau.

Mae corff deddfwriaeth Cymru'n tyfu'n barhaus, ac mae cyflwyno pwerau deddfu sylfaenol yng Nghymru'n symbyliad i adolygu'r Ddeddf Dehongli Saesneg gyfredol a bydd hyn yn gweithredu fel y llwyfan delfrydol i ddatblygu fersiwn Gymraeg ar yr un pryd.